# Yr Hyn sy'n Bwysig

| Ieithoedd Llythrennedd a chyfathrebu | Mathemateg a Rhifedd | Gwyddoniaeth a Thechnoleg | Y Dyniaethau | Y Celfyddydau Mynegiannol | Iechyd a Lles |
|---|---|---|---|---|---|
| 1.Mae ieithoedd yn ein cysylltu â'n gilydd | Defnyddir y system rif i gynrychioli a chymharu'r perthnasoedd rhwng rhifau a meintiau. | 1.Mae bod yn chwilfrydig a chwilio am atebion yn hanfodol i ddeall a rhagfynegi ffenomenau. | 1.Mae ymholi, archwilio ac ymchwilio yn ysbrydoli chwilfrydedd am y byd, ei orffennol, ei bresennol a'i ddyfodol. | 1.Mae archwilio'r celfyddydau mynegiannol yn hanfodol er mwyn dyfnhau sgiliau a gwybodaeth gelfyddydol, ac mae'n galluogi dysgwyr i ddod yn unigolion chwilfrydig a chreadigol. | 1.Mae datblygu iechyd a lles y corff yn arwain at fuddiannau gydol oes. |
| 2.Mae deall ieithoedd yn allweddol i ddeall y byd o'n hamgylch. | 2.Mae algebra yn defnyddio systemau symbolau i fynegi strwythur perthnasoedd mathemategol | 2.Mae meddylfryd dylunio a pheirianneg yn cynnig ffyrdd technegol a chreadigol i ddiwallu anghenion a dymuniadau cymdeithas. | 2.Mae digwyddiadau a phrofiadau dynol yn gymhleth a chânt eu hamgyffred, eu dehongli a'u cynrychioli mewn gwahanol ffyrdd. | 2.Mae ymateb a myfyrio, fel artist ac fel cynulleidfa, yn rhan hanfodol o ddysgu yn y celfyddydau mynegiannol. | Mae'r ffordd rydym yn prosesu ein profiadau ac yn ymateb iddyn nhw yn effeithio ar ein hiechyd meddwl a'n lles emosiynol. |
| 3.Mae mynegi ein hunain drwy ieithoedd yn allweddol i gyfathrebu. | 3.Mae geometreg yn canolbwyntio ar berthnasoedd sy'n ymwneud â siâp, gofod a safle, ac mae mesur yn canolbwyntio ar feintioli ffenomena yn y byd ffisegol. | 3.Mae'r byd o'n cYHSBpas yn llawn pethau byw sy'n dibynnu ar ei gilydd i oroesi. | 3.Mae ein byd naturiol yn amrywiol a deinamig, wedi'i ddylanwadu gan brosesau a gweithredoedd dynol. | 3.Mae creu yn cyfuno sgiliau a gwybodaeth, gan dynnu ar y synhwyrau, ysbrydoliaeth a dychymyg | Mae'r ffordd rydym yn gwneud penderfyniadau yn effeithio ar ansawdd ein bywydau ni a bywydau eraill |
| 4.Mae llenyddiaeth yn tanio'r dychymyg ac yn ysbrydoli creadigrwydd. | 4.Mae ystadegau yn cynrychioli data, mae tebygolrwydd yn modelu siawns, ac mae'r ddau yn cefnogi casgliadau a phenderfyniadau gwybodus. | 4.Mae mater, a'r ffordd y mae'n ymddwyn, yn diffinio ein bydysawd ac yn ffurfio ein bywydau. | 4.Mae cymdeithasau dynol yn gymhleth ac yn amrywiol, ac maen nhw'n cael eu llywio gan weithredoedd a chredoau pobl. | | 4.Mae'r ffordd rydym yn ymwneud â dylanwadau cymdeithasol yn siapio pwy ydyn ni, ac yn effeithio ar ein hiechyd a'n lles. |
| | | 5.Mae grymoedd ac egni yn gosod sail i ddeall ein bydysawd. | 5.Mae dinasyddion gwybodus, hunanymwybodol yn mynd i'r afael â'r heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu dynoliaeth, ac yn gallu cymryd camau ystyrlon ac egwyddorol. | | 5.Mae cydberthnasau iach yn hanfodol ar gyfer ein lles. |
| | | 6. Mae cyfrifiaduraeth yn gosod sail i'n byd digidol. | | | |